

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd ar Fro gan
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebo: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	2
2.	Trosolwg	2
3.	Themâu Allweddol.....	3
4.	Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig	9
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	15
6.	Llywodraethu ac Atebolrwydd	16
7.	Ymgysylltu.....	17
8.	Gwaith Arolygu.....	18

1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol arweiniol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ein rôl ni yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt trwy'r gwaith hwn fel a ganlyn:

- Mae profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella.
- Mae dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Mae dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgyssylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 25 arolygiad o leoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Tri adolygiad o ysbytai
- Pedwar adolygiad o bractisau ymarfer cyffredinol
- Un deg pedwar adolygiad o bractisau deintyddol
- Dau ymweliad Deddf Iechyd Meddwl
- Un archwiliad o uned iechyd meddwl
- Un adolygiad o orchymyn triniaeth gymunedol.

Yn y sector annibynnol yn ardal Caerdydd a'r Fro, mae AGIC wedi cynnal 24 arolygiad o leoliadau, a oedd yn cynnwys:

- Un arolygiad o hosbis
- Chwe ymweliad Deddf Iechyd Meddwl
- Un arolygiad dilynol o uned iechyd meddwl
- Dau arolygiad o glinigau annibynnol
- Tri arolygiad o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- Un arolygiad o glinig IVF
- Un arolygiad o wasanaeth llawdriniaeth laser
- Saith arolygiad o wasanaeth laser
- Un ymchwiliad i farwolaeth yn y ddalfa
- Un cyfweiliad cyn-gofrestru â rheolwr.

3. Themâu Allweddol

Yn ystod 2015-16, gwnaeth AGIC amrywiaeth o waith o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae nifer o themâu allweddol wedi dod i'r amlwg eleni, ac maent yn cael eu crynhoi isod.

Arolygiadau o Ysbytai'r GIG

Cynhaliodd AGIC dri arolygiad o ysbytai yn ystod 2015-16. Cafodd dau o'r rhain eu cynnal mewn ymateb i bryderon penodol y tynnwyd ein sylw atynt.

Ysbyty Dewi Sant, Ward Elizabeth (arolygiad ymatebol): Gwelsom fod y ward yn darparu gofal a oedd ar y cyfan yn gyson â'r rhan fwyaf o'r Safonau Iechyd a Gofal, gyda phwyslais yn cael ei roi ar iechyd, lles ac urddas cleifion. Fodd bynnag, canfuom fod lle i wella ynglŷn â'r canlynol:

- Aseidiadau ymataliaeth a chynlluniau gofal cleifion, a'r trefniadau sydd ar waith i roi cymorth i gleifion gyda gofal a hylendid personol

- Diffyg mecanwaith i gasglu safbwyntiau pobl ynglŷn ag ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir, mewn modd gweithredol
- Agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion.

Gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod cleifion a gweinyddu cyffuriau mewn modd diogel er mwyn cefnogi diogelwch cleifion a staff.

Ysbyty Plant Cymru Arch Noa: Ar y cyfan, gwelsom fod pob un o'r pedair ardal glinigol y gwnaethom eu harolygu'n cael ei harwain gan unigolion gwybodus, cryf eu cymhelliad a brwdfrydig, a oedd yn dangos ymdeimlad brwd o bwrpas ynghylch hybu gwelliant parhaus. Gwelsom fod dull trugarog yn cael ei ddefnyddio gan staff, gyda phreifatrwydd yn cael ei barchu a chleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Gwnaethom dderbyn adborth cadarnhaol gan deuluoedd cleifion, yn gyffredinol ac ynglŷn ag ansawdd y prydau bwyd a'r ffordd roeddent yn cael eu cyflwyno.

Gwelsom rai meysydd i'w gwella ynglŷn â'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaeth
- Heriau a oedd yn cael eu peri gan y ffordd roedd un ward wedi cael ei threfnu
- Lefelau staffio a threfniadau rheoli gwelyau.

Gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith oherwydd diffyg trefniadau ar gyfer adnabod plant yn gywir, a'r risg gysylltiedig o gamgymeriadau wrth weinyddu meddyginiaeth. Gwnaeth y llythyr hwn ofyn hefyd am welliannau ynglŷn â mesurau diogelwch pan fydd gan blentyn alergedd i latecs. Rhoddwyd sicrwydd digonol i AGIC gan y camau a gymerwyd a'r wybodaeth ychwanegol a roddwyd gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r llythyr.

Ysbyty Athrofaol Llandochoau (arolygiad ymatebol): Cynhaliodd AGIC arolygiad tri diwrnod o ganlyniad i bryderon y tynnwyd ein sylw atynt gan amrywiaeth o ffynonellau. Roedd AGIC yn cysylltu'n agos â Chyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro wrth asesu'r pryderon hyn, a chymerodd aelodau o'r cyngor iechyd cymuned ran yn y gwaith o gynnal yr arolygiad.

Gwnaeth sgysiau â staff yn ystod yr arolygiad hwn ddangos ymroddiad parhaus i ddarparu profiad cadarnhaol o wasanaethau'r GIG ar gyfer cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn nhri o'r pum adran

glinigol a arolygwyd. Yn y manau eraill, roedd y rheolwr ward yn weddol newydd i'r rôl, ac roedd angen gwelliant ar y llall ynglŷn ag arweinyddiaeth a rheolaeth.

Ar y cyfan, roedd ansawdd profiad y cleifion yn amrywio o fewn y pum adran glinigol y gwnaethom ymweld â nhw. At ei gilydd, roedd yr adborth a gafwyd yn yr holiaduron cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd nifer fawr o gleifion nad oeddent yn gallu siarad â ni, na chwblhau holiadur. Roedd hyn oherwydd eu hanghenion iechyd cymhleth a'u hanawsterau cyfathrebu.

O ganlyniad i ganfyddiadau cymysg iawn, ni roddwyd sicrwydd inni fod systemau ar waith yn y manau y gwnaethom ymweld â nhw er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal diogel a dibynadwy, a oedd yn uchel ei ansawdd, yn gyson.

Roedd gennym bryderon difrifol ynglŷn â thri maes o ddarpariaeth gwasanaeth:

- Cadw cofnodion ar ward Dwyrain 4 (Meddygaeth) a wardiau 10 a 18 (Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn)
- Rheoli meddyginiaeth (ym mhob un o'r pum ardal a archwiliwyd)
- Amddiffyn cleifion sydd mewn perygl o niwed (ward Dwyrain 4).

Fe'n harweiniwyd gan y materion hyn i gymryd camau unioni ar unwaith. Gwnaethom hefyd hysbysu'r bwrdd iechyd am yr angen i fynd i'r afael â'r materion hyn fel mater o flaenoriaeth.

Roedd sgrysiâu â staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn yn dangos yr anawsterau roeddent wedi eu profi wrth gael mynediad at wasanaethau meddygol cyffredinol mewnol yn ystod oriau gwaith arferol. Roedd hyn yn tanseilio gallu timau'r wardiau i sicrhau bod anghenion iechyd corfforol cleifion yn derbyn sylw'n brydlon, yn ogystal â'u hanghenion iechyd meddwl. Trafodwyd y mater hwn ag uwch-reolwyr, a ddywedodd fod y bwrdd iechyd yn ymchwilio i ffyrdd o wella cyfathrebu a threfniadau gweithio rhwng byrddau clinigol ar draws safle'r ysbyty.

Ar ail ddiwrnod ein harolygiad, roedd angen tynnu sylw'r bwrdd iechyd at ddau fater ynglŷn â darparu gwasanaeth, yn ymwneud ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, anfonwyd dau atgyfeiriad at y tîm diogelu. Mae'r materion hyn wrthi'n cael eu hystyried trwy ddefnyddio'r trefniadau Cymru gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, a gweithdrefnau disgyblu'r bwrdd iechyd yn ôl eu trefn.

Arweiniodd ein canfyddiadau ynglŷn â lefelau annigonol o staff, ac agweddau ar y broses o gadw cofnodion a rheoli meddyginiaeth, at AGIC yn cyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith. Cymerodd AGIC gamau i gwrdd â chynrychiolwyr allweddol y bwrdd iechyd, er mwyn ceisio gwybodaeth ac eglurhad pellach ynglŷn â'r gwelliannau ar unwaith a wnaed. Roedd AGIC yn fodlon ar y cynllun gwella a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd, er bod nifer o'r camau yn mynd i gael eu cymryd dros y chwe mis nesaf. Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno i roi diweddariad i AGIC ym mis Medi 2016.

Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG

Roedd yr arolygiadau o bractisau deintyddol a gynhaliwyd yn ardal y bwrdd iechyd yn dangos y themâu canlynol:

- Ym mhob achos, dywedodd cleifion a/neu eu gofalmwyr eu bod yn hapus gyda'u triniaeth ddeintyddol
- Gwelsom dimau practis a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, ac yn defnyddio dull proffesiynol a chymwynasgar wrth siarad â chleifion
- Ar y cyfan, roedd cleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth
- Roedd gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion
- Roedd triniaeth ddeintyddol yn cael ei darparu mewn amgylchedd diogel, glân a thaclus
- Roedd angen i nifer fach o bractisau wneud gwelliannau i ddangos eu bod yn llawn gydymffurfio â gweithdrefnau rheoli heintiau a dadheintio
- Gwnaethom nodi y dylai nifer fach o bractisau wneud gwelliannau i gofnodion cleifion
- Gwnaethom argymhell bod pedwar practis yn gwella eu trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon/cwynion er mwyn iddynt gydymffurfio â'r trefniadau a nodir yn '*Gweithio i Wella*' y GIG a/neu ofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat
- Gwnaethom hysbysu pedwar practis o'r angen i wahodd sylwadau ac adborth gan gleifion fel ffordd o wella gwasanaethau

- Mewn tri phractis, gwnaethom argymhellion ynglŷn â'r angen i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'w defnyddio.

Arolygiadau o Bractisau Ymarfer Cyffredinol

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gynnal pedwar arolygiad o bractisau ymarfer cyffredinol yn ardal y bwrdd iechyd. Gweithiodd y cyngor iechyd cymuned gyda ni ar yr arolygiadau hyn er mwyn casglu barn cleifion. Roedd themâu cyffredinol fel a ganlyn:

- Ar y cyfan, dywedodd cleifion eu bod yn cael eu trin fel unigolion, ac roeddent yn fodlon ar y gofal a'r cymorth roeddent wedi eu derbyn
- Roedd staff yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth siarad â chleifion
- At ei gilydd, roedd practisau'n cael eu rhedeg a'u harwain yn dda, gyda rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer aelodau tîm
- Roedd practisau'n rhoi pwyslais ar ansawdd a diogelwch yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal
- Mewn tri phractis, daethom i'r casgliad y byddai'n bosibl gwneud mwy ynglŷn ag iechyd, diogelwch a lles staff
- Mewn dau bractis, gwnaethom ofyn i welliannau gael eu gwneud ynglŷn â chofnodi brechiadau a statws imiwnedd staff
- Ynghylch trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion, roedd un practis yn dangos lefel annigonol o hyfforddiant staff, a gofynnwyd i bractis arall ddogfennu ei brosesau
- Mewn un practis, gwnaethom nodi bod heriau sylweddol wrth sicrhau bod gofal, triniaeth a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd a oedd yn diwallu hawliau dynol sylfaenol pobl, megis preifatrwydd a dewis ar sail gwybodaeth. Roedd y casgliad hwn yn ymwneud â'r ffordd wael roedd y practis wedi'i drefnu, newidiadau diweddar i staff, a diffyg adnoddau/gwasanaethau ar gyfer cyfathrebu â chleifion nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG

Gwnaeth ein harolygiad o Ganolfan Iorwerth Jones ym mis Mehefin 2015 ddangos llawer o feysydd o arferion nodedig. Fodd bynnag, oherwydd

cyfyngiadau amgylcheddol y ward, roedd staff yn cael llawer o anawsterau o ran gofalu am y grŵp cleifion a chyflawni eu swyddogaethau.

Gwelsom ryngweithio da rhwng cleifion a'r staff. Canmolodd perthnasau'r cleifion y gofal roedd eu perthnasau'n ei dderbyn, gan ddweud eu bod yn teimlo bod eu perthnasau'n ddiogel yng Nghanolfan Iorwerth Jones.

Gwnaethom nodi bod rheolwr ward Coed y Felin a rheolwr ward dros dro Coed y Nant ill dau'n frwdfrydig ac yn awyddus i ddatblygu eu gwasanaethau. Cafodd y ddau ohonynt eu penodi'n ddiweddar, ac roeddent wrthi'n datblygu eu timau ac yn mynd i'r afael â diffygion o ran hyfforddiant staff. Gwnaeth y ddau dîm ward sôn am ysbryd cyd-dynnu da a chymorth gan eu cydweithwyr.

Er bod y wardiau wedi eu trefnu mewn ffordd nad yw'n briodol ar gyfer gofal dementia, gwnaed ymdrech sylweddol i greu amgylchedd sy'n addas i gleifion â dementia. Nodwyd bod safon yr addurno'n dda ar y cyfan, ac yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd llawer o le ar gyfer storio ar y ddwy ward, a bod angen gwaith cynnal a chadw mewn nifer fawr o fannau.

Gwnaethom dynnu sylw at nifer o feysydd y mae angen gwella o ran arferion rheoli, rhagnodi a gweinyddu meddyginiaeth.

Arolygiad Iechyd Meddwl o Orchymyn Triniaeth Gymunedol

Roedd ein harolygiadau o orchymynion triniaeth gymunedol yn ystod 2015-16 yn ceisio asesu ansawdd a diogelwch darpariaeth iechyd meddwl ar ffurf gorchymynion triniaeth gymunedol yng Nghymru.

Daeth y canfyddiadau allweddol canlynol i'r amlwg yn ystod ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol:

- Gwelsom fod defnyddio gorchymynion triniaeth gymunedol yn galluogi cleifion i dderbyn gofal yn y ffordd leiaf caethiwus, yn unol â'r hyn a nodir yng Nghod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru¹ (y Cod Ymarfer). Roedd

¹Canllaw ar gyfer ymarferwyr iechyd meddwl sy'n gorfod gwneud penderfyniadau o fewn cwrmpas Deddf Iechyd Meddwl 1983, gan lywio'r ffordd y rhoddir y ddeddfwriaeth ar waith. Mae'r Cod hefyd yn gweithredu fel canllaw ar gyfer cleifion a'r rheiny sy'n eu cynorthwyo a'u cynghori.

amodau'r gorchmynion triniaeth gymunedol yn glir, ac i'w gweld yn unol â'r egwyddor o roi gofal yn y ffordd leiaf caethiwus ag y bo modd. Roedd gorchmynion triniaeth gymunedol yn cael eu hadolygu'n barhaus gan y tîm gofal i sicrhau eu bod yn dal i fod yn angenrheidiol er mwyn darparu gofal i'r claf yn y gymuned.

- Roedd hi'n amlwg ar sail cofnodion yn nodiadau'r cleifion bod dechrau, estyn, galw nôl neu ddirymu gorchymyn triniaeth gymunedol yn benderfyniad gan y tîm amlddisgyblaethol a oedd yn cynnwys staff o'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Roedd barn staff a thimau o bob disgyblaeth yn cael ei hystyried a'i gwerthfawrogi.
- Roedd y cyfathrebu'n dda rhwng y timau gwahanol a oedd yn ymwneud â'r broses gorchymyn triniaeth gymunedol. Gyda system gyfrifiadurol unedig rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol, roedd gwybodaeth gyfredol yn hawdd ei chyrraedd ar gyfer staff a oedd yn ymwneud â gofal y claf.
- Fodd bynnag, gwnaeth staff leisio pryderon ynglŷn â'r broses o gludo claf yn ôl i'r ysbyty pan fydd angen gwneud hynny. Nid oedd proses safonol ar waith, ac ar adegau gallai fod yn anodd trefnu trafndiaeth pan oedd gwahanol asiantaethau'n rhan o'r broses.

4. Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Arolygiad o Ddynladdiad

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd AGIC ganfyddiadau ymchwiliad² i ddynladdiad gan ddefnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl. Gwnaeth yr adroddiad (*Mr N a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl, yn dilyn dynladdiad a gyflawnwyd ym mis Tachwedd 2014*) nifer o argymhellion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Dyma ganfyddiadau'r adolygiad hwn:

- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/816/Mental%20Health%20Act%201983%20Code%20of%20Practice%20for%20Wales%20Welsh%20version.pdf>

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160330argoedhomicidecy.pdf>

Carchar EM Caerdydd a Charchar EM y Parc ddatblygu proses lle mae'r gwaith o ffurfio achos yn cael ei gyflwyno a'i ddiweddarau'n rheolaidd, wrth i garcharor symud o garchar i garchar a rhwng gwasanaethau gofal iechyd meddwl. Mae hyn yn ategu'r broses o gysoni a rhannu gwybodaeth, ac yn gwella ei hargaeledd, sy'n helpu clinigwyr i ddeall ac ystyried rhaglenni cynllunio gofal a thriniaeth, lle y bo'n briodol, mewn perthynas ag achosion hirsefydlog a chymhleth.

- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Carchar EM Caerdydd a Charchar EM y Parc sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i wirio'r sail resymegol dros feddyginiaeth ar bresgripsiwn, yn arbennig pan fydd unigolyn yn dangos hanes o ddiffyg cydymffurfio.
- Dylai rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r broses o ryddhau pobl o'r carchar:
 - a) Sicrhau bod systemau ar waith i ganiatáu rhannu gwybodaeth gofal iechyd yn well cyn rhyddhau unigolyn o'r carchar. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ac yn amddiffyn rhag atgwymp posibl mewn unrhyw gyflwr iechyd meddwl.
 - b) Dylai timau iechyd meddwl mewngymorth mewn carchardai a thimau iechyd meddwl cymunedol weithredu system o apwyntiad dilynol gwirfoddol o fewn un mis i ryddhad unigolyn o garchar. Byddai cynnig apwyntiad dilynol o'r fath yn helpu gyda chysondeb gofal ac yn helpu i roi cefnogaeth i unrhyw broblemau gofal uniongyrchol mewn cyfnod cychwynnol o risg uchel.
- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddatblygu ffiniau atebolrwydd amlwg mewn perthynas â phwy sy'n gyfrifol am geisio ymgysylltu ag unigolion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau'n rheolaidd.
- Dylai gweithdrefnau clir a chyfrinachol fod ar waith i rhanddeiliaid sydd â staff sy'n rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol o ddigwyddiadau difrifol, neu sy'n gysylltiedig â nhw, er mwyn cynnig gwasanaethau cymorth seicolegol a thrawma priodol ac amserol iddynt.
- Dylai rhanddeiliaid sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i deuluoedd a effeithir gan ddigwyddiadau o'r fath, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddangos y ffordd at gymorth. Dylai cymorth hefyd gynnwys dialog parhaus am brosesau ymchwilio sy'n gosod sail ar gyfer dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pob parti.

Ni wnaeth adolygiad AGIC ganfod unrhyw wir achosion neu ffactorau a arweiniodd at y digwyddiad anffodus a thrasig ar 6 Tachwedd 2014. Er i AGIC ganfod meysydd i'w gwella ynglŷn â gofal iechyd a chymorth yn ystod ein hadolygiad - a thynnir sylw at y rheiny sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro uchod - nid yw'n credu bod bodolaeth y materion hyn wedi cyfrannu at y digwyddiad trasig hwn.

Adolygiadau Clinigol o Farwolaethau yn y Ddalfa

Carchar EM Caerdydd – Hunanladdiad

Yn ystod 2015-16, cyfrannodd AGIC at un adolygiad o farwolaeth yn y ddalfa (hunanladdiad), a oedd yn ymwneud â Charchar EM Caerdydd. Wrth edrych ar yr adolygiad clinigol, roedd yn amlwg bod iechyd corfforol a meddyliol yr unigolyn wedi cael ei asesu'n briodol, a bod ei ofal a thriniaeth barhaus yn cydfynd â'i anghenion asesedig. Ni chafodd unrhyw arwyddion gan yr unigolyn y byddai'n brifo neu'n lladd ei hun eu gweld na'u mynegi trwy gydol yr amser yr oedd yn y ddalfa, a fyddai wedi rhybuddio staff am unrhyw risgiau. Roedd argymhellion AGIC yn sgil yr adolygiad yn ymwneud â chadw cofnodion, yn benodol wrth sicrhau bod y cofnodion clinigol yn unol â Chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015).

Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007

Yn ystod 2015-16, cyhoeddodd AGIC werthusiad o'r adolygiadau³ dynladdiad yr oedd wedi eu cynnal ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, am wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg
- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhad ac ôl-ofal

³ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160307homicidereviewreportcy.pdf>

- Gwasanaethau integredig a chydgyssylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Cododd rhwystrau i'r broses o weithredu'r argymhellion pan oedd angen camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad fod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi gwneud newidiadau i'r ffordd mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hyrwyddo dysgu ymhlith rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan uniongyrchol ym mhob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i bob bwrdd iechyd ystyried sut maent yn dysgu o'r adolygiadau hyn, yn enwedig pan nad ydynt yn cymryd rhan uniongyrchol mewn ymchwiliad a gynhelir gan AGIC.

Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad⁴ o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut roedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Mae canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd wedi bod yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar, sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r galon. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi diffygion yng ngweithdrefnau'r pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd inni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n ddigon cadarn.
- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael eu hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol.
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wir yn annibynnol, pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.
- Mae canfyddiad allanol bod rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn â rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

⁴ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/151221clinicalgovernancereviewcy.pdf>

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu o'r adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae'n rhaid iddynt eu cymryd.

5. Camau Dilydol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau Dilydol

Yn sgil pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gyflwyno adroddiad arolygu gyda'n canfyddiadau. Pan wnaethom nodi bod angen gwelliant, gwnaethom hefyd ofyn i'r bwrdd iechyd neu bractis roi cynllun gwella inni a oedd yn amlinellu'r camau unioni a fyddai'n cael eu cymryd.

Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC, a cheisiwyd gwybodaeth a sicrwydd pellach pan oedd angen. O ganlyniad, roedd yr ymatebion a roddwyd inni yn rhoi sicrwydd digonol inni fod y gwelliannau a nodwyd wedi derbyn sylw, neu fod y corff a arolygwyd wrthi'n rhoi sylw iddynt.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn 2015 a gofyn am ddiweddariad ar y cynnydd yn y gwaith o weithredu'r gwelliannau a nodwyd yn ein harolygiadau yn ystod 2014-15. Rhoddwyd sicrhau inni fod y bwrdd iechyd wedi cymryd y camau gweithredu a oedd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r gwelliannau a/neu wedi rhoi tystiolaeth inni fod cynnydd digonol yn cael ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion.

Mae AGIC wedi derbyn rhywfaint o sicrwydd ychwanegol ynglŷn â'r mater hwn yn ystod ei rhaglen o arolygiadau ysbytai yn ystod 2015-16. Er yr ymwelwyd â meysydd clinigol gwahanol, gwnaethom ystyried argymhellion y llynedd. Roedd hyn er mwyn penderfynu a oedd y materion hyn yn gyfyngedig i'r meysydd a arolygwyd yn 2014-15, neu'n bresennol mewn meysydd eraill o fewn y bwrdd iechyd. Roedd yn amlwg o'r gwaith dilydol hwn bod y bwrdd iechyd yn ceisio defnyddio ein harolygiadau i wella ansawdd a diogelwch ei wasanaethau, trwy sicrhau bod yr argymhellion a wnaed gan AGIC yn cael eu gweithredu, ac nad yw unrhyw broblemau a nodwyd yn ystod arolygiadau'n cael eu hefelychu mewn mannau eraill yn y bwrdd iechyd.

Sicrwydd ar Unwaith

Pan wnaethom nodi risg i ddiogelwch cleifion a oedd yn gofyn am gamau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflwyno tri llythyr sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â'r arolygiadau ysbyty canlynol:

- Ysbyty Dewi Sant
- Ysbyty Plant Cymru Arch Noa
- Ysbyty Athrofaol Llandochoau.

Roedd adnabod cleifion a gweinyddu cyffuriau mewn modd diogel yn thema gyffredin ym mhob un o'r tri llythyr sicrwydd ar unwaith. Yn achos Ysbyty Llandochoau, gofynnodd AGIC i gwrdd â phrif weithredwr y bwrdd iechyd a'i gynrychiolwyr er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn gyflym ynglŷn â nifer o faterion, gan gynnwys:

- Niferoedd annigonol o nyrsys cofrestredig mewn rhai manau
- Agweddau ar gadw cofnodion
- Rheoli meddyginiaethau.

Gwnaeth y bwrdd iechyd ymgysylltu ag AGIC mewn modd cadarnhaol mewn perthynas â'r prosesau sicrwydd ar unwaith a amlinellir uchod.

6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn cael eu hamlinellu yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.⁵ Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau mae'n eu darparu a'u comisiynu.

Mae gwaith arolygu AGIC yn ystod 2015-16 wedi ystyried trefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd. Ar y cyfan, gwelsom fod gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau mae'n eu darparu trwy waith archwilio ac adrodd rheolaidd.

⁵Mae *Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau, a'r hyn mae angen ei roi ar waith i geisio a rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

Er hynny, dylid nodi i AGIC ofyn i'r bwrdd iechyd, yn dilyn yr arolygiad o Ysbyty Llandochau, ystyried effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, o ystyried y graddau y roedd yn methu gweld, yn ôl pob golwg, y darlun llawn mewn perthynas â nifer o broblemau a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Mewn ymateb, gwnaeth y bwrdd iechyd gadarnhau nifer o drefniadau mewnol a'r camau gweithredu yr oedd yn bwriadu eu cymryd, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Sut y gall staff uwchraddio pryderon ynglŷn â lefelau staffio
- Cynlluniau i gynyddu amlder arolygiadau mewnol
- Y ffaith bod yr Archwilwyr Mewnol wedi cael eu comisiynu i edrych ar drefniadau llywodraethu ar draws y bwrdd iechyd, gyda ffocws penodol ar sut mae gwybodaeth allweddol ar lefel cyfarwyddiaeth yn cael ei thrafod a'i huwchraddio i'r Bwrdd Clinigol a'r Bwrdd Gweithredol.

Rhoddyd sicrwydd i AGIC gan y wybodaeth yr oedd wedi'i derbyn a'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno i roi diweddariad i AGIC ar y cynnydd a wnaed tuag at y gwaith o gyflawni'r camau arfaethedig ym mis Medi 2016.

7. Ymgysylltu

Mae rheolwr perthynas a phrif weithredwr AGIC wedi cwrdd â phrif weithredwr a chadair y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae nifer o staff AGIC wedi trafod amrywiaeth o faterion â staff y bwrdd iechyd. Ar bob adeg, mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i'r cais i gwrdd yn gadarnhaol. Bu nifer o achlysuron pan ysgrifennodd AGIC i'r bwrdd iechyd i ddilyn pryderon penodol ynglŷn â gwybodaeth leol, ac mae'r rhain hefyd wedi derbyn sylw priodol. Pan ofynnwyd iddynt, mae'r bwrdd iechyd wedi rhannu ymchwiliadau ag AGIC. Ar rai achlysuron, cymerodd hwy na'r disgwyl i dderbyn yr adroddiadau mewnol hyn, er ein bod wedi cael ar ddeall bod hyn oherwydd cymhlethdod rhai ymchwiliadau.

Gwnaeth AGIC gymryd rhan lawn yn yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd i'r digwyddiad ym Mhractis Deintyddol Splott Road.

Roedd AGIC yn falch o weld bod yr adolygiad yn nodi bod prosesau cyfredol AGIC yn gadarn a bod y bwrdd iechyd wedi ceisio gwneud newidiadau i'w drefniadau llywodraethu ar gyfer practisau deintyddol er mwyn dysgu o'r digwyddiad.

Mae AGIC, gyda'r bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru, wedi ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad a bydd yn rhoi ymateb maes o law.

Mae'n galonogol nodi bod prosesau wedi datblygu ers adeg y digwyddiad, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn ddiweddar pan ddaeth gwybodaeth i'r amlwg ynglŷn â phractis yn ardal Caerdydd. Roedd AGIC a'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn nodi camau priodol a sicrhau nad oedd cleifion mewn perygl.

8. Gwaith Arolygu

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ysbyty

1. Ysbyty Dewi Sant	26 Awst 2015
2. Ysbyty Plant Cymru Arch Noa	7 Hydref 2015
3. Ysbyty Athrofaol Llandochoau	9 Chwefror 2016

Practisau Ymarfer Cyffredinol

4. Cliniig Iechyd Tyllgoed, Heol Plas-mawr, Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3JT	19 Awst 2015
5. Meddygfa Ravenscourt, 36-38 Heol Tynewydd, y Barri, CF62 8AZ	12 Tachwedd 2015
6. Meddygfa Roathwell, 116 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 1YT	6 Ionawr 2016
7. Meddygfa Station Road, 15-16 Heol yr Orsaf, Penarth, CF64 3EP	2 Chwefror 2016

Practisau Deintyddol

8. Canolfan Deintyddol Porthceri, 2 Heol Porthceri, y Barri, Bro Morgannwg, CF62 7AX	5 Mai 2015
9. Practis Deintyddol Colchester, 1-3 Lady Margaret Court, Colchester Avenue, Caerdydd, CF23 9AW	19 Mai 2015
10. Gofal Deintyddol Park Crescent, Bro Morgannwg, CF62 6HE	28 Mai 2015
11. The Courtyard Dental Care, 4 Rachel Close, Danescourt, Caerdydd, CF5 2SH	2 Mehefin 2015
12. Practis Deintyddol y Pines, Heol y Forlan, yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1AX	9 Mehefin 2015
13. Practis Deintyddol Fairwater Green, 6 Fairwater Green, Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3BA	11 Mehefin 2015
14. IDH Dental, 21 Heol Splott, Caerdydd, CF24 2BU	15 Mehefin 2015
15. Practis Deintyddol Rhiwbeina, 25 Heol y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6HB	25 Awst 2015
16. PD Care Ltd, 31 Kenmare Mews, Pontprennau, Caerdydd, CF23 8RJ	27 Awst 2015

17. Practis Deintyddol Heol Santes Fair, 28 Heol Santes Fair, Caerdydd, CF10 1AB	20 Hydref 2015
18. Dental Surgery, 57 y Stryd Fawr, y Bont-faen, Bro Morgannwg, CF71 7AF	10 Tachwedd 2015
19. Practis Deintyddol Lakeside, 62 Celyn Avenue, Lakeside, Caerdydd, CF23 6EP	8 Rhagfyr 2015
20. Cowbridge Dental Care, 30 y Stryd Fawr, y Bont-faen, Bro Morgannwg, CF71 7AG	16 Rhagfyr 2015
21. Clinig Deintyddol Parc Trelái, 122 Heol Orllewinol y Bontfaen, Trelái, Caerdydd, CF5 5BT	26 Ionawr 2016

Deddf Iechyd Meddwl

22. Canolfan Iorwerth Jones (dwy ward)	16 Mehefin 2015
--	-----------------

Uned Iechyd Meddwl

24. Canolfan Iorwerth Jones	16 Mehefin 2015
---	-----------------

Gorchymyn Triniaeth Gymunedol

25. Caerdydd a'r Fro	19 Ionawr 2016
--------------------------------------	----------------

Gofal Iechyd Annibynnol

Hosbis (Plant)

1. Tŷ Hafan	5 Tachwedd 2015
-----------------------------	-----------------

Deddf Iechyd Meddwl

2. Tŷ Catrin (chwe ward)	23 Chwefror 2016
--	------------------

Arolygiad Dilynol o Uned Iechyd Meddwl

8. Tŷ Catrin	23 Chwefror 2016
------------------------------	------------------

Clinig Annibynnol

9. Cyncoed Consulting Rooms, 277 a 350 Ffordd Cyncoed, Cyncoed, Caerdydd, CF23 6PA	12 Awst 2015
10. Synexus Ltd, 1-2 Purbeck House, Parc Busnes Llanisien, Caerdydd, CF14 5GJ	18 Awst 2015

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2002

11. Ysbyty Bae Caerdydd	20 Awst 2015
---	--------------

12. Ysbyty Vale	21 Awst 2015
13. Spire	15 Hydref 2015

IVF

14. Clinig Menywod Llundain (Caerdydd)	15 Medi 2015
--	--------------

Gwasanaethau Laser – Llawfeddygol

15. Optical Express, 46-48 Heol y Frenhines, Caerdydd, CF10 2GQ	4 Awst 2015
---	-------------

Laser

16. FACE Cosmetics	30 Mehefin 2015
17. Visible Changes	29 Medi 2015
18. Skin Deep Beauty and Laser Clinic	14 Hydref 2015
19. Beauty Advance Laser Therapy Ltd	17 Tachwedd 2015
20. Laserase (Cymru)	25 Ionawr 2016
21. Beauty Within	9 Chwefror 2016
22. DestinationSkin Ltd	16 Mawrth 2016

Cyfweliadau Cyn Cofrestru â Rheolwyr

23. TFHC Ltd	9 Ebrill 2015
--------------	---------------

Ymchwiliad – Marwolaethau yn y Ddalfa

24. Carchar EM Caerdydd (Mr BT)	29 Tachwedd 2015
---------------------------------	------------------